IS-DDEDDFWRIAETH

# 2019 Rhif 08

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau'r Cynllun Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol (Gweinyddu) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Mawrth 2019* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 30(5) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau'r Cynllun Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol (Gweinyddu) (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ebrill 2019.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Felindre(**2**).

**Gweinyddu'r Cynllun Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol**

**2.** Rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Felindre arfer holl swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â gweinyddu'r Cynllun Esgeuluster Clinigol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a'r Byrddau Iechyd Lleol, a

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Felindre o dan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838).

sefydlwyd gan reoliad 3 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Esgeuluster Clinigol) (Cymru) 2019(**1**), gydag effaith o 1 Ebrill 2019.



Llofnodwyd gan Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 20 Mawrth 2019

(**1**) O.S. 2019/422 (Cy. 97).